**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13 Ebrill 2000 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **PWYLLGOR AR GYFLE CYFARTAL: AMRYWIOLDEB MEWN PENODIADAU CYHOEDDUS** |

**Nodyn gan y Cadeirydd**

**<u>Nod</u>**

1. Mae'r Pwyllgor wedi rhoi yng ngofal y gweithgor yr orchwyl o edrych ar ffyrdd y gellir gwneud penodiadau cyhoeddus sy'n cynrychioli'n amgenach boblogaeth Cymru a thynnu'n ehangach oddi ar brofiad a sgiliau pobl na chawsant eu hystyried i'w penodi yn y gorffennol. Mae'r papur hwn yn nodi cwmpas y gwaith.

2. Amlinellwyd gorchwyl gwaith y grwp yn fy nghofnod i gerbron aelodau'r Pwyllgor:

Cynghori ar raglen waith wedi'i chynllunio i ddenu ceisiadau ar gyfer penodiadau cyhoeddus sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru yn eang, yn enwedig mewn perthynas a rhyw, hil ac anabledd; ac sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i wneud penodiadau sy'n cynrychioli'r cymunedau dan eu gofal yn well.

3. Golyga hyn ystyried y ffordd orau o:

- ddenu ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru gan fenywod, pobl o leiafrifoedd ethnig, a phobl anabl, mewn niferoedd sy'n cynrychioli pob un o'r carfanau hyn mewn cymdeithas.
- annog ceisiadau am benodiadau cyhoeddus o groestoriad ehangach o gymdeithas.

- sicrhau bod y broses ddethol yn rhoi ystyriaeth briodol a theg i ymgeiswyr abl ond heb brofiad o'r hyn a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer penodiad.

- darparu hyfforddiant i ymgeiswyr posibl i'w galluogi i fod yn fwy addas ar gyfer penodiadau.

- Goresgyn y problemau sy'n rhwystro llawer rhag derbyn penodiad sy'n wynebu llawer (e. e. amser oddi wrth y gwaith, gofal plant ac ati).

**<u>Amcanion</u>**

4. Rwy'n awgrymu y gall gwaith y gweithgor ganolbwyntio ar sut i fodloni'r amcanion canlynol:

i) Gweithredu rhaglen i ledaenu gwybodaeth am benodiadau cyhoeddus i grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol, trwy dargedu hysbysebion, gwella cysylltiadau gyda sefydliadau perthnasol, darganfod pam fod grwpiau yn ymgeisio mewn gwahanol gyfrannau ar hyn o bryd.

ii) Dynodi angen a modd o ddarparu hyfforddiant priodol a chyfleoedd datblygu i'r rheiny o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol ac eraill sydd ar hyn o bryd mewn swyddi llai ffurfiol mewn bywyd cyhoeddus, (e.e. llywodraethwyr ysgolion, aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned).

iii) Annog pobl mewn grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol sydd eisoes wedi'u penodi i'w cynnig eu hunain i Gadeirio'r cyrff y maent yn eu gwasanaethu. Dynodi a gweithredu cyfleoedd datblygu i'r bobl hynny lle bo'n briodol.

iv) Dynodi a gweithredu mesurau i sicrhau y diwallir anghenion pobl anabl yn ystod y broses recriwtio, trwy gysylltu â sefydliadau perthnasol.

v) Diwygio canllawiau penodiadau cyhoeddus i gynnwys cyfeirio at gynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf penodi lleiaf.

vi) Prawf-ddarllen hysbysebion a manylebau swydd o safbwynt cydraddoldeb er mwyn sicrhau nad ydynt yn peri i bobl mewn grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol beidio ag ymgeisio ac er mwyn sicrhau eu bod hefyd yn fwy deniadol i ystod ehangach o ymgeiswyr.

vii) Cynnig hyfforddiant arferion da mewn dethol, yn cynnwys cyfle cyfartal, i'r rhai hynny sy'n ymwneud â chyfweld ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus, i aseswyr annibynnol ac i Aelodau o'r Cynulliad ar Baneli Penodi.

viii) Ystyried y trefniadau hyfforddiant ar gyfer aelodau sydd newydd eu penodi, fel y gellir penodi gan gymryd y bydd hyfforddiant o ansawdd yn cael ei ddarparu.

ix) Ymchwilio a fyddai modd i gyrff cyhoeddus gynnig darparu treuliau gofal plant a threuliau gofal eraill i'r rhai a benodwyd, gyda golwg ar annog pob sefydliad i fabwysiadu polisi o wneud hynny.

x) Annog cyflogwyr (yn arbennig yn y sector cyhoeddus?) i ganiatáu i aelodau o gyrff cyhoeddus gael eu rhyddhau o'u swydd am gyfnod. Ymchwilio a oes lle i gyrff cyhoeddus gynnig rhywfaint o iawndal i fusnesau (bach?) ryddhau staff fel hyn.

xi) Gwella systemau monitro er mwyn mesur effaith y trefniadau hyn ar ba mor agored y mae pobl yn gweld y system benodi.

xii) Rhoi cyngor a chyfleoedd hyfforddi i ymgeiswyr da nas penodwyd ond er hynny y gellir eu hystyried ar gyfer ymarferion penodi pellach; rhoi gwell ymateb ar resymau dros beidio â dethol fel na pherir i ymgeiswyr da beidio ymgeisio yn y dyfodol.

**Targedau**

5. Awgrymir y targedau canlynol:

i) Sicrhau cynnydd blwyddyn-ar-flwyddyn yng nghyfran y menywod mewn penodiadau cyhoeddus o'r ffigwr gyfredol o 31% i 40% yn y flwyddyn 2003, a gweithio tuag at gael yr un faint, yn fras, o ddynion a menywod mewn penodiadau cyhoeddus ym mhob sefydliad.

ii) Cynyddu cyfran yr ymgeiswyr am benodiadau cyhoeddus sy'n fenywod i 50% erbyn 2001. (Ym 1999 mae tua 30% o ymgeiswyr yn fenywod).

iii) Cynyddu cyfran y bobl o leiafrifoedd ethnig mewn penodiadau cyhoeddus, ac adlewyrchu cyfran cymunedau o leiafrifoedd ethnig yn achos y cyrff cyhoeddus hynny sy'n gofalu'n uniongyrchol am gymunedau gyda chyfran uchel ohonynt. (Ym 1999, 1% o'r rhai a benodwyd oedd yn aelodau o gymuned leiafrifol ethnig).

iv) Monitro cyfran ymgeiswyr sy'n adrodd anabledd ganddynt eu hunain, gan anelu at sicrhau cynnydd blwyddyn-ar-flwyddyn a bod 5% o ymgeiswyr yn dod o dan y categori hwn erbyn 2003.

v) Monitro oed a swydd ymgeiswyr a'r penodiadau a wnaed gyda golwg ar sicrhau y penodir croestoriad ehangach o bobl.